# Etholiadau yng Nghymru (Mai 2026) Holiadur Ciplun o Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru



Comisiynydd Plant Cymru

Mai 2025

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

## Cyflwyniad

Yn ystod mis Mai 2025 gofynnon ni i blant a phobl ifanc am yr etholiad fydd yn cael ei redeg yma yn Nghymru, mis Mai flwyddyn nesaf.

Roedd yr holiadur yn rhan o gyfres o gwestiynau ar wahanol bynciau rydyn ni'n eu gofyn i blant a phobl ifanc bob mis, dan yr enw Mater y Mis, er mwyn clywed eu barn ar amrywiaeth o bethau. Cafodd ei rannu'n uniongyrchol â'r holl ysgolion sy'n rhan o'n cynlluniau hawliau plant ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â grwpiau cymunedol.

Fel rhan o becyn yr holiadur, dangoson ni fideo i'r plant a'r bobl ifanc, yn cyflwyno'r pwnc, a gofynnwyd iddyn nhw ystyried rhai cwestiynau fel beth maen nhw'n gwybod yn barod am wleidyddiaeth a'r etholiad, ydyn nhw erioed wedi gweld neu glywed gwyobdaeth gan bleidiau gwleidyddol a beth maen nhw'n gwybod am y Senedd a'r bobl sy'n gyfrifol am Gymru nawr. Yn yr amlinelliad ar gyfer y sesiwn, roedden ni'n awgrymu, ar ôl gweld y fideo, y dylai plant a phobl ifanc gael amser i drafod eu barn gyda'i gilydd cyn ateb yr holiadur. Roedd gan ysgolion ddau opsiwn ar gyfer cwblhau'r holiadur; gallai plant a phobl ifanc ei wneud yn annibynnol, neu gallai athro gwblhau'r holiadur ar ran y grŵp, gan ateb set wahanol o gwestiynau i roi trosolwg o'r drafodaeth.

Atebodd 800 o blant a phobl ifanc yr holiadur yn unigol. Cymerodd ystod eang o oedrannau ran, o blant o dan 7 i rai at 18 oed. Derbyniwyd ymatebion gan ysgolion a grwpiau o fewn 20 awdurdod lleol.

Datblygwyd y cwestiynau gan dîm staff profiadol y Comisiynydd ar sail themâu oedd wedi dod i'r amlwg mewn ymarferion ymgysylltu blaenorol gyda phlant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

# <u>Cwestiynau i'r plant a bobl ifanc</u>

## Ymatebion Ysgolion Uwchradd

### Bydd etholiad Senedd Cymru blwyddyn nesaf. Ble fyddet ti'n mynd i gael gwybodaeth am yr etholiad hwn?

Mae hawl gennyt ti ddewis mwy nag un ateb Gofyn i riant/gofalwr/rhywun o'r teulu (112) 56%
Gofyn i athro yn yr ysgol/coleg (79) - 39%
Siarad gyda ffrindiau (70) - 35%
Edrych am wybodaeth ar y wê (68) - 34%
Edrych ar wefan Llywodraeth Cymru (50) - 25%
Newyddion teledu neu radio (44) - 22%
Cadw llygaid mas am wybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol e.e. TikTok, X, YouTube (38) - 19%
Does dim diddordeb gen i yn yr etholiad (36) - 18%
Edrych ar wefan neu broffil cymdeithasol plaid gwleidyddol (28) - 14%
Edrych mewn papurau newydd neu wefannau newyddion am wybodaeth (22) - 11%
Siarad gyda rhywun sy'n sefyll yn yr etholiad (13) 7%
Rhywbeth arall (8) - 4%

### Sut hoffet ti ddysgu am yr hyn y mae gwleidyddion (politicians) eisiau ei newid yng Nghymru? Mae hawl gennyt ti ddewis mwy nag un ateb

Cyfryngau cymdeithasol (yn cynnwys fideos) (117) - 59%
Gwybodaeth ar eu gwefannau (69) - 35%
Gwleidyddion yn dod i'ch ysgol neu goleg (69) - 35%
Llyfrynnau (33) - 17%
Does dim diddordeb gen i mewn beth mae gwleidyddion eisiau newid yng Nghymru (33) - 17%
Taflenni trwy eich blwch llythyrau (31) - 16%
Rhywbeth arall (4) - 2%

**Beth hoffet ti ei wybod ganddyn nhw? Mae hawl gennyt ti ddewis mwy nag un ateb**

Beth fydden nhw'n ei wneud pe baen nhw'n rhedeg Cymru (153) - 77%
Beth fydden nhw'n ei wneud i bobl ifanc (133) - 67%
Beth fydden nhw'n ei wneud i bobl yn dy ardal leol (98) - 49%
Rhywbeth arall (9) - 5%

**Pa gyngor sydd gennyt ti i wleidyddion wrth iddyn nhw greu pethau i bobl ifanc i wylio neu ddarllen?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Gwneud e'n ddiddorol / hwyl
- Gwneud pethau'n hawdd eu deall
- Polisïau a chynnwys sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc/sy'n berthnasol i bobl ifanc

**Pa ddatganiadau wyt ti'n meddwl sy'n wir? Dewisia pob un rwyt ti'n meddwl sy'n wir.**

Mae pobl yn gallu pleidleisio arlein mewn etholiad Senedd (113) - 62%
Rwyt ti'n gallu mynd i unrhyw orsaf pleidleisio (86) - 47%
Mae'n rhaid i ti gael pasbort i gofrestru i bleidleisio (69) - 38%
Rwyt ti'n gallu cofrestru i bleidleisio mewn etholiad ar ddiwrnod yr etholiad (63) - 35%
Os wyt ti ar wyliau neu'n gweithio ar ddiwrnod etholiad rwyt ti'n gallu cael pleidlais bost (60) - 33%
Mae'n rhaid i ti gymryd dy gerdyn pleidleisio gyda ti pan rwyt ti'n pleidleisio (59) - 32%
Yng Nghymru rwyt ti'n gallu cofrestru i bleidleisio pan rwyt ti'n 14 (51) - 28%
Os nad wyt ti'n gallu pleidleisio dy hun, rwyt ti'n gallu dewis rhywun arall i bleidleisio ar dy ran (41) - 23%
Os dwyt ti ddim yn pleidleisio mewn etholiad byddet ti'n cael dirwy (fine) (9) - 5%

**Er nad wyt ti wedi bod yn ddigon hen i bleidleisio eto, wyt ti erioed wedi mynd i orsaf bleidleisio gyda rhiant, gofalwr neu aelod o'r teulu pan wnaethon nhw bleidleisio mewn etholiad?**

Nac ydw (105) - 55%
Ydw (58) - 30%
Dwi ddim yn siwr (29) - 15%

**Wyt ti wedi gwneud unrhyw rhai o'r pethau yma dros y 12 mis diwethaf? Mae hawl gennyt ti ddewis mwy nag un ateb.**

Dim o'r rhain (75) - 40%
Wedi bod yn rhan o dîm gweithredu neu gyngor ysgol (45) - 24%
Arwyddo deiseb (sign a petition) (34) - 18%
Cytuno gyda neu hoffi neges gwleidyddol gan ddylanwadwr (influencer) (30) - 16%
Dwi ddim yn gwybod (29) - 16%
Prynu - neu wedi osgoi prynu - unrhywbeth oherwydd rhesymau gwleidyddol neu rhesymau moesegol (20) - 11%
Cyfrannu at drafodaeth neu ymgyrch arlein neu ar gyfryngau cymdeithasol (17) - 9%
Cysylltu â gwleidydd, swyddog llywodraeth neu lywodraeth leol ynglŷn â mater a oedd yn peri gofid i ti (12) - 6%
Postio ar gyfryngau cymdeithasol am fater sydd wedi dy boeni (12) - 6%
Cymryd rhan mewn protest (6) - 3%

**Wyt ti'n gwybod pwy yw'r person yma?**



Nac ydw (186) - 92%
Ydw (17) - 8%

**Yna gofynnwyd i'r bobl ifanc a atebodd 'ydw' os allent enwi'r person yn y llun.**

Roedd 9 o'r 14 o bobl ifanc a atebodd y cwestiwn dilynol yn gallu enwi Prif Weinidog Cymru.

**Wyt ti'n gwybod pwy yw'r person yma?**



Nac ydw (103) - 51%
Ydw (100) - 49%

**Yna gofynnwyd i'r bobl ifanc a atebodd ‘ydw’ os allent enwi'r person yn y llun.**

Roedd 82 o'r 87 o bobl ifanc a atebodd y cwestiwn dilynol yn gallu enwi'r Prif Weinidog.

# Atebion Oedran Cynradd

## Wyt ti'n gwybod pa adeilad yw hwn?



Ydw (225) - 39%
Nac ydw (204) - 36%
Ddim yn siwr (143) - 25%

**Yna gofynnwyd i blant a atebodd ‘ydw’ os allent enwi'r adeilad.**
Roedd 181 o'r 197 o blant a atebodd y cwestiwn dilynol yn gallu adnabod yr adeilad yn gywir.

**Y Senedd yw'r adeilad. Ble wyt ti'n meddwl yw'r Senedd?**
Bae Caerdydd (429) - 77%
Port Talbot (42) - 8%
Y Drenewydd (42) - 8%
Ynys Môn (26) - 5%
Rhyl (20) - 4%

**Wyt ti'n gwybod pwy yw'r person yma?**



Nac ydw (489) - 85%
Ydw (89) - 15%

**Yna gofynnwyd i blant a atebodd 'ydw' o allent enwi'r person yn y llun.**

Roedd 57 o'r 82 o blant a atebodd y cwestiwn dilynol yn gallu enwi Prif Weinidog Cymru.

**Wyt ti'n gwybod pwy yw'r person yma?**



Nac ydw (301) - 52%
Ydw (277) - 48%

**Yna gofynnwyd i blant a atebodd 'ydw' os allent enwi'r person yn y llun.**

Roedd 240 o'r 254 o blant a atebodd y cwestiwn dilynol yn gallu enwi'r Prif Weinidog.

**Blwyddyn nesaf mae etholiad yng Nghymru. Bydd cyfle i bobl dros 16 oed bleidleisio ac i ddewis pwy maen nhw eisiau i redeg Cymru. Maen nhw'n gallu pleidleisio trwy'r post neu mewn gorsaf bleidleisio.**

**Wyt ti erioed wedi bod mewn gorsaf bleidleisio neu wedi gweld dy deulu yn pleidleisio drwy'r post?**

Ydw - dwi wedi gweld nhw'n pleidleisio trwy'r post (235) - 41%
Na (213) - 37%
Ydw - dwi wedi bod i orsaf pleidleisio (125) - 22%

**Wyt ti'n gwylio, darllen, neu yn gwrando ar y newyddion? Gallai hyn fod trwy raglenni teledu fel Newyddion Ni neu Newsround, cylchgronnau newyddion, papurau newydd, neu newyddion ar-lein.**

Ydw, yn y ysgol (394)
Ydw, adref (198)
Nac ydw (104)

**Pa newyddion wyt ti'n gwylio, darllen, neu wrando arno?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Newsround
- Newyddion brif ffrwd sydd ar y teledu
- Papurau newdd
- Radio

# Crynodeb a Diweddglo

- Roedd pobl ifanc a oedd yn ymateb i'n holiadur eisiau dysgu am gynlluniau gwleidyddion ar gyfer Cymru trwy bostiadau a fideos ar y cyfryngau cymdeithasol. Mewn ymatebion testun rhydd, dywedodd pobl ifanc eu bod eisiau gwybodaeth diddorol a chysylltiedig, sy’n berthnasol i bobl ifanc, a gwybodaeth sy’n hawdd eu deall. Dim ond 17% o'r plant a gwblhaodd yr holiadur oedd ddim gyda diddordeb
- Mae'r canlyniadau'n dangos y rôl werthfawr sydd ar hyn o bryd yn cael ei chwarae gan ysgolion wrth annog plant i ddysgu am cynnwys newyddion. Mae nifer uchel o blant a gwblhaodd yr holiadur yn defnyddio cynnwys newyddion yn yr ysgol: dywedodd 68% o blant oed cynradd eu bod yn gwylio, darllen neu’n gwrando ar y newyddion yn yr ysgol, o'i gymharu â dim ond 34% yn y cartref. Dywedodd 75% o blant a ddywedodd eu bod yn gwylio, yn darllen neu'n gwrando ar newyddion eu bod yn gwylio rhaglen newyddion y BBC Newsround.
- Mae gwahaniaeth clir rhwng nifer y plant a'r bobl ifanc oedd yn gwybod pwy oedd Prif Weinidog Cymru (8% o'r uwchradd a 15% o'r cynradd), a'r nifer oedd yn gwybod pwy oedd Prif Weinidog Prydain (49% o'r uwchradd a 48% o'r cynradd) yn ein holidaur ciplun. Er nad yw ein canlyniadau yn gynrychioliadol yn genedlaethol, maent yn paentio darlun tebyg i lefelau blaenorol o ymwybyddiaeth o wleidyddiaeth ddatganoledig. Fel y daeth Canolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd i'r casgliad yn ei hadroddiad diweddar, mae angen ymdrech gydgysylltiedig a pharhaus – rhaid i hyn gynnwys gwella llythrennedd gwleidyddol plant a phobl ifanc.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'r data

- Byddwn yn ysgrifennu at bleidiau gwleidyddol cyn etholiad nesaf y Senedd yn eu hannog i wneud cynnwys penodol i bobl ifanc gyfathrebu eu hymrwymiadau maniffesto.
- Byddwn hefyd yn ysgrifennu at y BBC yn gofyn iddynt ystyried dichonoldeb rhaglen newyddion Saesneg i blant yng Nghymru (yn debyg i 'Newyddion Ni', sy'n rhaglen newyddion i blant Gymraeg, sy'n cael ei chynhyrchu yng Nghymru), o ystyried y nifer uchel o blant gwnaeth ateb ein holiadur sy ar hyn o bryd yn gwylio'r rhaglen newyddion Newsround ledled y DU.
- Rydym wedi rhannu'r canlyniadau gyda'r Comisiwn Etholiadol a Chomisiwn y Senedd i helpu i lywio eu gwaith codi ymwybyddiaeth yng Nghymru.
- Rydym yn parhau i gefnogi gwaith ymgysylltu ehangach ar wleidyddiaeth ac etholiad y Senedd, wrth weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid.